



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## **Adroddiad ar gyfer**

**Tiny Tots Sgwâr Clytha  
1 The Avenue  
Sgwâr Clytha  
Casnewydd  
NP20 2FF**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Tiny Tots Sgwâr Clytha

Enw'r lleoliad	Tiny Tots Sgwâr Clytha
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal Dydd Llawn
Person(au) cofrestredig	Ddim yn berthnasol
Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol)	Nicola Williams / Clare Sawkins
Person â chyfrifoldeb	Kelly Bourne
Nifer y lleoedd	60
Ystod oedran y plant	Geni hyd at 12 oed
Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor	1
Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor	9
Diwrnodau / amseroedd agor	Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.00am i 6.00pm
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Nac ydy
Iaith y lleoliad	Saesneg
A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn?	Ydy
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn oherwydd bod y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg ei iaith yn bennaf. Fodd bynnag, argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC	05/10/2017

Adroddiad ar Tiny Tots Sgwâr Clytha  
Medi 2019

Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn	19/01/2016
Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn	24/09/2019
Gwybodaeth ychwanegol  Mae nifer bach o blant y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Nid oedd unrhyw blant ag anghenion addysgol ychwanegol yn y lleoliad ar adeg yr arolygiad.	



## Crynodeb

<b>Thema</b>	<b>Barn</b>
<b>Llesiant</b>	<b>Da</b>
<b>Dysgu</b> (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)	<b>Da</b>
<b>Gofal a datblygiad</b>	<b>Da</b>
<b>Addysgu ac asesu</b> (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)	<b>Da</b>
<b>Yr Amgylchedd</b>	<b>Da</b>
<b>Arwain a rheoli</b>	<b>Da</b>

## **Diffyg cydymffurfio**

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## **Argymhellion**

- A1 Gwella sgiliau datrys problemau y plant
- A2 Datblygu'r amrywiaeth o eitemau naturiol ac eitemau'r cartref sydd ar gael i'r plant iau i'w galluogi i archwilio a datblygu eu natur chwilfrydig
- A3 Gwella'r amgylchedd yn yr ystafelloedd chwarae i hybu lles y plant a rhoi cyfleoedd iddynt ymlacio a darllen yn annibynnol

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant: Da

Mae gan bron pob plentyn lais cryf yn y lleoliad. Maent yn gwneud penderfyniadau priodol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dewis o amrywiaeth eang o adnoddau ac yn symud yn hyderus rhyngddynt. Mae llawer o'r plant yn cyfrannu syniadau defnyddiol ar gyfer themâu a phynciau ac ymgynghorir â nhw ynglŷn â'u barn am y gwasanaeth. Er enghraifft, trefnodd y lleoliad wythnos gystadlaethau yn dilyn awgrymiadau gan y plant hŷn sy'n mynychu'r clwb ar ôl ysgol. Mae llawer o'r plant yn lleisio neu'n mynegi eu barn yn hyderus ac maent yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn mynd i'r afael â'u dymuniadau yn dda. Er enghraifft, mae'r plant yn gofyn am fwy o gremmogau yn ystod amser brechwast a chânt eu darparu ar eu cyfer.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Maent yn gyfarwydd â'r arferion ac yn ymdawelu'n gyflym. Mae bron pob un ohonynt yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r ymarferwyr a'u cyfoedion ac maent yn hyderus wrth fynnu sylw gan yr oedolion. Er enghraifft, aeth y nifer bach o blant a oedd yn drist ar ôl cyrraedd at yr ymarferwyr i gael cysur a gwnaethant ymdawelu'n gyflym. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos eu mwynhad drwy wenu a chwerthin. Er enghraifft, mae'r plant bach yn clapio ac yn dathlu ar ddiwedd caneuon actol.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn ymateb yn dda iawn i geisiadau gan yr ymarferwyr, megis helpu i dacluso ac mae llawer ohonynt yn defnyddio 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' heb unrhyw ysgogiad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac maent yn dilyn y rheolau yn y lleoliad. Mae llawer o'r plant yn cymryd eu tro ac yn rhannu adnoddau yn dda, er enghraifft pan fydd tri phlentyn bach yn cydweithio i adeiladu tŵr â blociau chwarae meddal a'i ailadeiladu pan fydd yn cwmpo.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o weithgareddau. Maent yn dyfalbarhau am gyfnodau priodol o amser â gweithgareddau megis posau. Mae llawer o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae dychmygus yn dda ac yn rhyngweithio'n briodol. Er enghraifft, mae'r plant yn eistedd wrth y bwrdd ac yn arllwys diodydd i'w gilydd yn y gegin chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymuno i ganu caneuon Cymraeg a Saesneg yn llawn brwdfrydedd ac mae bron bob un ohonynt yn cymryd rhan mewn caneuon actol o oedran ifanc iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r babanod yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau chwarae blêr, er enghraifft creu olion traed â phaent.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth a hunangymorth da. Mae llawer o'r plant yn ceisio arllwys eu diodydd eu hunain a gweini bwyd, gyda chymorth priodol. Maent yn defnyddio cyllyll a ffyrdd addas i'w hoedran yn effeithiol. Mae bron

pob plentyn yn datblygu sgiliau hunangymorth sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, maent yn cymryd cyfrifoldeb am fynd i'r toiled, golchi dwylo a gwisgo eu cotiau eu hunain.

### **Dysgu (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron pob plentyn yn cyflawni canlyniadau da ac yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu sgiliau, yn enwedig eu sgiliau personol a chymdeithasol. Maent yn llwyddo i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd yn llwyddiannus wrth archwilio eu hamgylchedd dysgu a rhoi cynnig ar brofiadau newydd.

Mae bron pob plentyn yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus, megis wrth rannu eu gwybodaeth am yr hydref. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn dda i gwestiynau syml ac yn rhannu jôcs a syniadau â'r ymarferwyr a'i gilydd yn llawn brwdfrydedd. Maent yn barod i ddilyn cyfarwyddiadau, megis wrth osod a dosbarthu powlenni a chwpanau yn ystod amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canu caneuon a hwiangerddi yn frwdfrydig. Maent yn mwynhau gwrando ar straeon ac ymuno mewn brawddegau sy'n ailadrodd yn hyderus. Maent yn trin llyfrau fel darllenwyr ac yn troi tudalennau â gofal. Mae llawer o'r plant yn adnabod eu henwau a gall rhai ohonynt ysgrifennu'r llythyren gyntaf ar gyfrifiadur llechen. Mae gan lawer o'r plant ddiddordeb mewn ysgrifennu a gwneud marciau, gan gynnwys paentio gan ddefnyddio brigau a thynnu lluniau â sialc yn yr awyr agored.

Mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau rhif cynnar priodol. Maent yn cyfrif i 11 yn gywir yn ystod amser cylch ac yn gallu adnabod y rhifolion i 5. Mae llawer ohonynt yn dechrau defnyddio iaith fathemategol wrth chwarae, megis dod o hyd i frigau hir a byr a chyfrif blociau wrth greu llwybr. Maent yn dechrau defnyddio eu sgiliau datrys problemau yn briodol, er enghraifft wrth wneud dewisiadau am y ffordd orau o'u glynu wrth ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn defnyddio'r sgiliau hyn yn gyson ym mhob maes dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau gweithgareddau corfforol ac yn datblygu eu sgiliau yn effeithiol. Maent yn defnyddio cyfarpar awyr agored yn dda i ddatblygu eu sgiliau cydsymud yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn reidio beiciau cydbwysu a sgwteri ac yn gwthio teganau ag olwynion dros linellau sialc. Mae llawer o'r plant yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau â rheolaeth a chywirdeb da, gan gynnwys wrth godi darnau o afal â gefel.

Mae sgiliau creadigol llawer o'r plant yn datblygu'n dda, er enghraifft wrth dynnu lluniau gan ddefnyddio deunyddiau collage a modelau o ddynion coesau matsys. Mae bron pob plentyn yn dechrau meddwl am anghenion plant eraill, megis datod ffedogau ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio amrywiaeth o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus. Maent yn defnyddio cyfrifiadur llechen i dynnu lluniau

yn hyderus ac yn defnyddio camera digidol i dynnu lluniau o'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio teganau replica megis ffonau symudol ac yn chwarae gyda nhw yn bwrpasol yn y gornel chwarae rôl.

Mae sgiliau Cymraeg y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn deall ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml, megis 'amser tacluso' ac 'ewch i olchi eich dwylo'. Maent yn ymateb i gwestiynau syml ynglŷn â'u teimladau ac yn ymuno mewn caneuon a rhigymau'n llawn brwdfrydedd. Maent yn cyfrif i ddeg â chymorth ac yn enwi sawl lliw. Mae llawer o'r plant yn ymuno mewn ystumiau i ganeuon ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymuno i ganu'r geiriau yn hyderus.

### **Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais mawr ar iechyd a diogelwch y plant. Maent yn derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, diogelu a hylendid bwyd ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r meysydd hyn. Maent yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau allweddol ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiogelu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau y caiff y plant gyfleoedd i fyw'n iach. Maent yn cynnig sawl cyfle i'r plant fod yn egniol yn gorfforol, er enghraifft drwy redeg a reidio beiciau yn yr awyr agored, cymryd rhan mewn caneuon actol a chwarae yn y pwll peli a'r ystafell chwarae meddal. Mae'r lleoliad yn cynnig bwydlen amrywiol o brydau a byrbrydau iach. Mae'r ymarferwyr yn mynd ati'n gydwybodol i ddiwallu anghenion deietegol unigol y plant ac mae'r systemau ar gyfer nodi alergeddau yn gadarn. Mae'r gweithdrefnau hylendid yn dda ac mae'r arferion ar gyfer glanhau a golchi dwylo'r plant yn sefydledig.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol iawn ac maent yn fodolau rôl da. Maent yn datblygu cydberthnasau magwrus â'r plant ac yn eu trin â pharch. Mae'r ymarferwyr yn dangos cwrteisi ac yn atgoffa'r plant yn garedig i rannu eitemau a bod yn garedig tuag at ei gilydd. Maent yn canmol y plant yn gyson am ymddygiad ac ymdrech dda ac mae hyn yn eu helpu i fagu eu hunanhyder a hunan-barch. O ganlyniad i hyn, mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn yn y lleoliad ac mae awyrgylch digynnwrf a hamddenol yno.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda. Mae ganddynt wybodaeth dda am anghenion unigol y plant ac maent yn eu galluogi i ddilyn eu harferion eu hunain. Er enghraifft, mae'r babanod yn dilyn eu harferion cysgu eu hunain. Mae pob ymarferydd yn gyfrifol am fonitro datblygiad y plant ac yn ei hybu'n effeithiol. Maent yn cynnal arsylwadau manwl o gynnydd y plant ac yn nodi'r camau dysgu nesaf. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant.



Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n briodol ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn effeithiol ac mae nifer o'r plant iau yn dechrau defnyddio rhai geiriau Cymraeg. Er enghraifft, mae'r plant iau yn defnyddio 'diolch' a 'dŵr' yn ystod amser byrbryd. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg mor effeithiol gyda'r plant hŷn sy'n mynychu'r clwb ar ôl ysgol.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i'r plant ddatblygu'n emosiynol ac yn gymdeithasol. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o weithgareddau codi arian a gweithgareddau elusennol ar gyfer achosion lleol. Er enghraifft, maent yn trefnu te-partis ac yn ymweld â'r ward plant mewn ysbyty lleol. Mae'r lleoliad hefyd wedi cynnal digwyddiad 'swabio' er mwyn ceisio dod o hyd i roddwyr mêt esgyrn ar gyfer person ifanc sy'n byw'n lleol. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth y plant o anghenion pobl eraill a datblygu ymdeimlad o berthyn i gymuned.

### **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan bron pob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut mae plant ifanc yn dysgu ac maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau dychmygus ac ysgogol sy'n ennyn chwilfrydedd pob un o'r plant yn dda. Maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn sicrhau bod y gweithgareddau'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i'r plant wneud dewisiadau wrth ddysgu drwy chwarae'n annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth addas o strategaethau addysgu'n dda i annog a chymell y plant i ddysgu dan do ac yn yr awyr agored.

Mae gan yr ymarferwyr gydberthynas gynnes a gofalgar rhyngddynt â'r plant ac maent yn eu hannog i wneud eu gorau. Maent yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysfawr i bob plentyn ac maent yn ymwybodol o'r unigolion sydd angen cymorth ychwanegol ac yn ymyrryd yn briodol. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod gan y plant sy'n dysgu Saesneg arwyddion ar ffurf lluniau i'w galluogi i ddilyn arferion dyddiol. Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn dda ac maent yn dechrau defnyddio cwestiynau yn bwrpasol i ymestyn sgiliau meddwl y plant, er enghraifft pan fyddant yn dewis deunyddiau crefft ac yn paratoi bwyd yn yr ardal chwarae rôl.

Mae sawl cyfle buddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ymuno mewn sgysiau a gofyn cwestiynau priodol. Maent yn defnyddio llyfrau er mwyn helpu'r plant i ddysgu'n effeithiol, megis defnyddio stori adnabyddus i ennyn diddordeb y plant cyn creu dynion coesau matsys. Mae cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu eu sgiliau gwneud marciau, megis wrth ddefnyddio sialciau mawr y tu allan a phaent yn yr ardal greadigol. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gyfrif, didoli a chymharu meintiau wrth chwarae, er enghraifft wrth ddod o hyd i'r rhif sy'n cyfateb i'w hoedrannau a dod o

hyd i frigau mawr i'w defnyddio i baentio. Maent yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i alluogi'r plant i ddefnyddio cyfarpar TGCh yn gymwys, megis defnyddio teganau a reolir o bell, radios ddwyffordd a chamerau digidol.

Caiff datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant eu hybu'n effeithiol drwy amrywiaeth dda o brofiadau dysgu. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod wrth gynllunio ar gyfer y tymhorau. Mae hyn hefyd yn helpu i hybu dealltwriaeth y plant o natur yn dda. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol drwy ddathlu gwyliau megis Eid a Diwali. Mae adnoddau priodol ar gael megis doliau a bwyd chwarae i hybu dealltwriaeth y plant o grefyddau eraill.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i'r plant ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u trefn ddyddiol, megis eu holi am y tywydd. Maent yn eu hannog i ymuno mewn rhigymau ac ymateb i gwestiynau syml, megis yr hyn y maent am gael i'w yfed yn ystod amser byrbryd. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn astudio cestyll Cymru a dreigiau.

Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn cynnal arsylwadau rheolaidd a defnyddiol o'r plant i lywio cofnodion asesu a nodi'r camau dysgu nesaf yn llwyddiannus.

### **Yr Amgylchedd: Da**

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel. Ni all unrhyw ymwelwyr fynd i mewn i'r safle heb ganiatâd gan aelod o'r staff a chaiff cofnodion eu cadw o bob unigolyn sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob prawf i sicrhau diogelwch cyfarpar diffodd tân, nwy a thrydan yn cael ei gwblhau'n amserol. Mae systemau cadarn ar waith i nodi risgiau a'u dileu lle y bo'n bosibl. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg dyddiol o'r holl ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Caiff tymereddau'r ystafelloedd eu monitro'n agos. Mae pob ystafell yn lân, yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac yn cael eu hailwampio fel rhan o raglen ailaddurno barhaus. Er enghraifft, mae ystafelloedd y babanod wedi cael eu haddurno'n ddiweddar ac mae llawr newydd wedi'i osod yno. Mae'r ardaloedd newid cewynnau a'r toiledau yn lân ac yn cydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau newid cewynnau yn gydwobodol ac yn parchu preifatrwydd ac urddas y plant.

Mae'r safle yn gynnes ac yn groesawgar ac mae sawl arddangosfwrdd o luniau a gwaith y plant. Mae hyn yn helpu'r plant i ddatblygu ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu cyflawniadau. Mae'r ystafelloedd yn cynnwys dodrefn priodol a byrddau a chadeiriau ar lefel isel. Mae digon o le i'r plant symud yn rhydd rhwng gweithgareddau ac mae ystafelloedd ychwanegol ar gyfer cysgu a chwarae rôl. Fodd bynnag, nid yw'r ystafelloedd chwarae yn cynnwys ardaloedd cyfforddus i'r plant eistedd ynddynt yn ystod gweithgareddau megis darllen, amser cylch ac amser stori.

Caiff ystafell chwarae meddal sy'n cynnwys pwll peli ei defnyddio'n dda ac mae'n cynnig cyfleoedd i'r plant fod yn gorfforol egniol pan nad yw'r tywydd yn addas i chwarae yn yr awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn dda. Mae'n cynnwys digon o adnoddau gan gynnwys cyfarpar chwarae corfforol, cegin fwd a chwarae blêr. Mae ardal fawr wedi'i gorchuddio sy'n galluogi'r plant i chwarae y tu allan ym mhob tywydd, bron yn ogystal ag ardal laswelltog fawr ar gyfer gweithgareddau ysgolion coedwig.

Mae digon o adnoddau yn yr ystafelloedd chwarae. Mae'r adnoddau'n lân, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch perthnasol. Caiff llawer ohonynt eu storio ar lefel isel, gan alluogi'r plant i gael gafael arnynt yn annibynnol. Fodd bynnag, dim ond nifer bach o'r llyfrau y gall y babanod a'r plant bach eu cyrraedd yn annibynnol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth dda o offer naturiol ac offer sydd wedi'u hailgylchu ar gael i'r plant bach a'r plant cyn ysgol. Er enghraifft, roedd y gegin chwarae rôl yn cynnwys digon o adnoddau megis eitemau'r cartref a deunydd pecynnu wedi'i ailgylchu ac roedd yr ardaloedd synhwyraidd yn cynnwys amrywiaeth dda o ddeunyddiau naturiol. Fodd bynnag, nid oes cymaint o eitemau naturiol nac eitemau'r cartref i'w gweld yn ystafelloedd y babanod.

### **Arwain a rheoli: Da**

Mae gan y lleoliad ddatganiad o ddiben cynhwysfawr sy'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu. Mae'r rheolwyr yn arwain yn dda ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Rhoddir pwyslais clir ar greu ethos cadarnhaol ac amgylchedd croesawgar lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Caiff hyn ei rannu â'r ymarferwyr a'r rhieni yn llwyddiannus. Mae'r rheolwyr yn gweithio gyda'u cydweithwyr i ddatblygu llesiant y plant a chyfoethogi eu dysgu yn effeithiol. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac mae gan yr ymarferwyr ymrwymiad cadarn i weithio fel tîm. Maent yn ymarferwyr myfyriol sy'n deall bod angen parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth y maent yn ei chynnig. Mae'r rheolwyr a'r arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol yn glân â gwaith y lleoliad a'i gyfeiriad strategol mewn cyfarfodydd rheolaidd.

Mae'r rheolwyr yn defnyddio'r systemau arfarnu a goruchwyllo yn dda i roi cymorth o ansawdd da i'r ymarferwyr ac i gyfleu safonau uchel. Maent yn llwyddo i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant yn seiliedig ar eu hanghenion a'u diddordebau. Maent yn dod o hyd i hyfforddiant addas a fydd yn datblygu ymarfer yr ymarferwyr ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant. Er enghraifft, mae'r hyfforddiant diweddar yn cynnwys technegau arsylwi a arweiniodd at asesu ac arsylwi ar sgiliau'r plant yn well. Yn ddiweddar, dechreuodd y rheolwyr fonitro gwaith yr ymarferwyr yn uniongyrchol a rhoi adborth gwerth chweil iddynt i'w helpu i wella eu hymarfer a'u sgiliau.

Mae'r rheolwyr wedi sefydlu arferion diogel yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod digon o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau addas ar gael i sicrhau deilliannau da i bob

plentyn a'u bod yn cael eu defnyddio'n briodol. Mae arferion recriwtio cadarn ar waith ac mae'r gweithdrefnau sefydlu yn drylwyr.

Mae gan y lleoliad ddiwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso a threfniadau gwerth chweil i nodi ei gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r rheolwyr yn blaenoriaethu'r rhai a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddiogelwch a deilliannau'r plant ac yn eu cysylltu â'r cyllid sydd ar gael yn ofalus. Maent yn casglu barn y rhieni, yr ymarferwyr a'r plant yn briodol ac yn gweithredu ar eu hargymhellion yn ofalus. Ar ôl ymgynghori â'r rhieni, maent wedi creu rhaglen ailaddurno a gwnaeth yr ymarferwyr argymell a chreu ardal goetir i wella dealltwriaeth y plant o'r byd naturiol.

Mae gan y lleoliad amrywiaeth o bartneriaid gwerth chweil sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chanlyniadau'r plant. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â thrafodaethau ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos ag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar ei chynghor a'i chanllawiau'n ddiwyd. Gyda'i chymorth, maent wedi mireinio eu prosesau asesu a chynllunio ac wedi datblygu darpariaeth awyr agored. Mae'r lleoliad wedi creu cysylltiadau buddiol ag ysgolion lleol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau y caiff gwybodaeth briodol ei rhannu ag ysgolion, gan gynnwys data asesu, fel bod y cyfnod pontio rhwng lleoliadau yn ddidrafferth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (<http://arolygiaethgofal.cymru>) ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

<b>Rhagorol</b>	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Cryfderau yn gorbwysu gwendidau ond mae angen gwelliannau
<b>Gwael</b>	Gwendidau pwysig yn gorbwysu cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol

### Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysgr Cyf (o'r Saesneg i'r Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2019